

BWLETIN POLISI CYTÛN

EBRILL 2017



CYMUNEDAU CRYF YN GYNTAF

Ar Chwefror 14, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet Carl Sargeant ei gyhoeddiad hirddisgwyliedig am ddyfodol Cymunedau'n Gyntaf. Gallwch ei ddarllen yn gyflawn [yma](#):



communities first
cymunedau yn gyntaf

Yn fras, fe gyhoeddodd:

- Parhad ariannu yn llawn tan 30 Mehefin 2017
- Parhad ariannu ar lefel 70% tan 31 Mawrth 2018

Wedyn o Ebrill 2018:

- Cronfa 'etifeddiaeth' o £6m y flwyddyn am 4 blynedd i'w dosbarthu i rai o brosiectau

unigol Cymunedau'n Gyntaf trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- Ychwanegiad o £4m y flwyddyn i'r Gronfa Adnoddau Cymunedol (CFAP) er cynorthwyo canolfannau cymunedol a chyfleusterau tebyg
- Ychwanegiad o £12m y flwyddyn i ariannu Cymunedau dros Waith a chynlluniau cyflogadwyedd eraill, i'w weinyddu gan gynghorau lleol
- Ariannu ychwanegol ar gyfer Cylchoedd Plant a Hybiau i daclo ACEs (profiadau gwael adeg plentyndod) (yn ogystal â Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf)
- Parhad ariannu i CAB Cymru ddarparu gwasanaethau cynghori lleol.

Gallwch weld y cyhoeddiad a'r drafodaeth fer a ddilynodd ar [SeneddTV yma](#) (yn dechrau 15.15), a'r sesiwn lawnach o flaen y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau [yma](#).

Roedd Cytûn wedi paratoi ymateb llawn ar sail sylwadau a ddanfonwyd gan eglwysi yn wyth o gylchoedd Cymunedau'n Gyntaf. Fe ddanfonwyd yr ymateb at y Llywodraeth a'r Pwyllgor, a'i drafod wyneb yn wyneb â Mr Sargeant cyn iddo wneud y cyhoeddiad. Roedd rhan fwy'r cylchoedd yn bryderus am unrhyw newid sydyn, er bod ambell un yn feiriadol o gynllun Cymunedau'n Gyntaf at ei gilydd. Mae'r trefniadau ar gyfer parhad rhai cynlluniau lleol yn cwrdd â nifer o ofynion penodol Cytûn, ac rydym yn croesawu'r elfen hon yn y cyhoeddiad.



Cyfeiriwyd at ymateb Cytûn yn y Cyfarfod Llawn gan Mark Isherwood AC, ac roedd y cyfan bron o'r cwestiynau gan aelodau o bob plaid yn mynegi gofid am y penderfyniad a'i effaith, tra'n croesawu'r elfen o barhad.

Bydd rhagor o drafod am fanylion y newidiadau, ac am natur rhai o'r cynlluniau newydd i hybu Cymunedau Cryf, ac felly bydd Swyddog Polisi Cytûn yn parhau i groesawu sylwadau a mewnbwn wrth i bethau ddatblygu (manyion cyswllt ar y dudalen gefn).

EGLWYSI CYMRU YN YMATEB I DANIO ERTHYGL 50

Ar Fawrth 29, mewn ymateb i sbarduno Erthygl 50 Cytundeb Lisbon er mwyn negodi ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn wedi cyhoeddi rhestr o egwyddorion y credir ddylai fod yn sylfaen i safiad y DG yn ystod y trafodaethau sydd ar gychwyn. Cynhwysant amddiffyn statws a hawliau plant ac ieuenctid, yr anabl a'r oedrannus. Dywedant fod rhaid parchu hawliau dynol parthed yr iaith Gymraeg a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal â chyfreithiau sy'n gwarchod yr amgylchedd a chefn gwlad, gan gynnwys bywoliaeth y rhai sy'n gweithio mewn diwydiannau gwledig.

Mae'r adroddiad – a gyhoeddwyd gan Cytûn ar ran y prif enwadau Cristnogol – yn ychwanegu bod angen i'r rhaniadau dyfnion a amlygodd eu hunain yn ystod y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd (UE) gael eu cydnabod a'u hiacháu.

“Wrth i adael yr UE ddod yn realiti yn awr, rhaid i ni fod yn gefn i bobl y mae eu bywydau wedi newid mewn ffyrdd na fyddent fyth yn eu dymuno,” meddai Dr Patrick Coyle, Cadeirydd Cytûn, ar ran y gweithgor a ffurfiwyd i baratoi ymateb Cristnogol Cymreig i Brexit. “Rhaid deall yr anniddigrwydd sydd wedi ei ddatguddio mewn cymunedau sydd heb elwa o'r globaleiddio a ddigwyddodd a chymryd camau i geisio meithrin datblygiad yr ardaloedd hynny. Rhaid wynebu'r hiliaeth a'r senoffobia cudd a ddatgelwyd gan ymgyrch y refferendwm. Bydd rhaid i'r Eglwysi fod yno gyda'r sawl sydd angen eu cysuro a'u calonogi ac, yn bennaf oll, i feithrin heddwch a chymod.”



Eisoes rhoddodd y Gweithgor, a ffurfiwyd yn yr haf llynedd ar gais Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, dystiolaeth ar y mater hwn i bedwar Pwyllgor Dethol yn y Cynulliad a San Steffan: “Wrth i ni fentro i ddyfroedd dieithr, yn wleidyddol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd, mae'n hanfodol ein bod ni fel Cristnogion yn cyfrannu mewn modd adeiladol a chadarn at y ddadl a'r broses ddemocrataidd,” meddai'r Dr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ychwanegodd y Barchedig Carol Wardman o'r Eglwys yng Nghymru fod llawer wedi cael sioc pan ddaeth canlyniad y bleidlais yng Nghymru i adael yr UE, gan fod Cymru wedi bod yn wlad sy'n edrych tuag allan a chanddi gwllwm tynn â nifer o rannau eraill y byd. “Tra'i bod yn bwysig nad yw Cymru'n dioddef anfantais o ganlyniad i adael yr UE a'n bod yn cadw cyfeillgarwch a chymdeithas gyda'r cymdogion Ewropeaidd, mae hefyd yn bwysig i gydnabod yr anghyfartaledd a'r dadrithiad a barodd i bobl, yn arbennig yn rhannau tlotaf Cymru, i bleidleisio dros Brexit. Nid yw cymdeithas Eglwys Crist yn cydnabod unrhyw ffiniau a gelwir Cristnogion i weithio dros gymod – felly, mae'r eglwysi mewn sefyllfa ddelfrydol i adlewyrchu ar ein sefyllfa gyfredol ac i ystyried sut mae symud ymlaen gyda'n gilydd mewn cariad.”

Meddai'r Parchg. Denzil John, o Undeb Bedyddwyr Cymru, fod y Gweithgor yn fodd i'r enwadau gwahanol ddarganfod llais cyffredin wrth iddynt ymateb i'r newidiadau a ddaw i Gymru yn dilyn Brexit. “Mae hwn yn gyfle i ni fynd i'r afael â rhai o'r materion sylfaenol sydd yn ein herio fel cenedl, a'u deall mewn cyd-destun Ewropeaidd a byd-eang.”

“Mewn cyfnod o ansicrwydd, mae gan yr eglwys rôl bwysig i'w chwarae o gynnig sefydlogrwydd. Wrth i gynifer o raniadau ymddangos a dyfnhau yn ein cymdeithas, gyda'r ymdeimlad o ymddieithrio oddi wrth eraill yn dod yn amlwg, mae gan gymunedau ffydd gyfrifoldeb i wasanaethu a chymodi” meddai'r Athro Noel Lloyd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Papur Gwyn Llywodraeth y DU am y Bil Diddymu Mawr: Ymateb gan Swyddog Polisi Cytûn

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 30 Mawrth 2017, ac mae ar gael [yma](#). Mae Swyddog Polisi Cytûn wedi ymateb i'r Papur Gwyn ar sail y materion a godwyd eisoes gan [Weithgor Cymru ac Ewrop](#) Cytûn wrth gyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau.

1. Cymhwysedd datganoledig – Fe ymddengys y bydd y Bil Diddymu yn cynnwys darpariaeth i gynnwys cyfreithiau'r UE mewn meysydd datganoledig o fewn cyfraith Cymru (para 2.5) a (para 1.15, 3.6, 4.6) caniatáu i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth yn 'cywiro' cyfraith yr UE er mwyn iddi weithio o fewn fframwaith deddfwriaeth Cymru. Bydd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan y Cynulliad ar y cymalau hyn yn y Bil Diddymu, ac ar unrhyw gymalau eraill sy'n cyfeirio'n benodol at gymwyseddau Cymreig. (Bydd yr un peth yn wir am yr Alban a Gogledd Iwerddon – a gall y naill a'r llall greu eu trafferthion eu hunain). Noder mai'r awgrym presennol yw y cyflawnir y pethau hyn drwy ddeddfwriaeth yn San Steffan gyda chydsyniad Cymreig yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth yng Nghymru. Gweler fy erthygl ym [Mwletin Polisi Cytûn Chwefror 2017](#) (tt 4-5) am esboniad o pam mai hyn yw patrwm setliad Cymru ar hyn o bryd.
2. Fframwaith deddfwriaethol y Deyrnas Unedig – Mae Pennod 4 yn dechrau amlinellu'r syniad y bydd angen rheoleiddio "marchnad sengl y DU" wedi Brexit yn yr un ffordd ag y rheoleiddir marchnad sengl yr UE ar hyn o bryd. Defnyddir hyn wedyn i awgrymu y bydd y rheoliadau fframwaith a wneir ar hyn o bryd gan yr UE yn cael eu llunio yn y dyfodol trwy ddeddfau y DU (para 4.4), gyda gweinyddu o fewn y fframwaith honno wedi'i ddatganoli. Ychwanegir y bydd fframwaith y DU ar y cychwyn yn debyg iawn i fframwaith yr UE, gyda newidiadau yn cael eu trafod ar ôl Brexit. Mae hyn yn sylfaenol wahanol i'r syniad a gyflwynir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, [Diogelu Dyfodol Cymru](#) (tt 27-28) y dylid cytuno'r fframweithiau rhwng holl lywodraethau'r DU. Byddai cynnig Llywodraeth y DU yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol ar lefel y DU, gyda chydsyniad y Cynulliad yn y meysydd nad yw Deddf Cymru 2017 yn eu cadw yn San Steffan. Mae'r Papur Gwyn yn ychwanegu (para 4.5) *This will be an opportunity to determine the level best placed to take decisions on these issues, ensuring power sits closer to the people of the UK than ever before. It is the expectation of the Government that the outcome of this process will be a significant increase in the decision making power of each devolved administration.* Byddwn yn disgwyl ymateb cryf gan y gweinyddiaethau datganoledig i egwyddor hyn, ac i'r awgrym y bydd trafodaethau manwl rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cychwyn dim ond *wedi* Brexit.
3. Hawliau dinasyddion yr UE yn y DU. – Mae para 1.22 yn dweud *we will introduce an immigration bill so nothing will change for any EU citizen, whether already resident in the UK or moving from the EU, without Parliament's approval.* Nid yw hyn yn warant llawn i'r dinasyddion hyn, ond mae yn tynnu'r gofid y gallent golli hawliau trwy weithredu llywodraethol yn unig. Ni wireddwyd yr adroddiadau yn y wasg na fyddai dinasyddion yr UE sy'n cyrraedd yma wedi tanio Erthygl 50 yn meddu ar yr un hawliau â'r sawl sydd yma eisoes – yn wir, mae'r Papur Gwyn yn pwysleisio sawl gwaith y bydd holl hawliau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau dan gytundebau a chyfreithiau'r UE yn parhau hyd at yr amser yr ymadewir â'r UE, ac y byddai unrhyw newidiadau ond yn dechrau cael eu llunio ar ôl yr ymadawiad.
4. Cydraddoldebau a hawliau dynol – Mae'r Papur Gwyn yn dweud yn benodol y bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 – a seilir ar gyfraith yr UE – yn aros mewn grym (para 2.17 Esiampl 1) ac nad oes gan y DU unrhyw gynlluniau i dynnu allan o'r Confensiwn Ewropeaidd am Hawliau Dynol – er gwaethaf adroddiadau i'r

gwrthwyneb yn y wasg rai wythnosau yn ôl. Mae'r ddeubeth hyn yn unol â'r hyn yr ydym ni ac eglwys unigol wedi gofyn amdano. Ond nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnwys Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE i gyfraith y DU, gan ddadlau fod yr holl hawliau oddi fewn iddi eisoes wedi eu cynnwys mewn deddfwriaeth neu gytundebau a fydd yn cael eu cadw yng nghyfraith y DU, neu yn amherthnasol am eu bod yn ymwneud â sefydliadau penodol yr UE (para 2.23-2.25). Mae'n sicr y bydd gan arbenigwyr hawliau dynol rywbeth i'w ddweud am y penderfyniad hwn yn y dyddiau i ddod, ac rwy'n rhagweld mai dyma fydd un o'r cynigion mwyaf dadleuol.

5. Cyfraith amgylcheddol – Rydym wedi mynegi'n gyhoeddus ein gofid am sylwadau a wnaed i un o Bwyllgorau San Steffan gan Andrea Leadsom AS (Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) mai dim ond dwy ran o dair o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE y byddid yn eu trosglwyddo i gyfraith y DU. Ond mae'r Papur Gwyn (para 2.17 Esiampl 2) yn dweud yn benodol *The Great Repeal Bill will ensure that the whole body of existing EU environmental law continues to have effect in UK law*. Mae hyn i'w groesawu – ond nid yw'n ystyried y ffaith nad yw'r amgylchedd yn fater wedi'i gadw i San Steffan, a bod cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru yn gorwedd gyda'r Cynulliad.
6. Yr unig gyfeiriad at amaethyddiaeth yw para 4.2, yng nghyd-destun y syniad o "fframwaith" y DU ar gyfer gweinyddu datganoledig – gweler pwynt 2 uchod. Mae hyn yn awgrymu nad yw amaethyddiaeth ar flaen meddwl Llywodraeth y DU ar hyn o bryd, a byddai hynny yn fater o bryder i eglwys Cymru.
7. Mae Pennod 5 yn ymwneud â Jersey, Guernsey, Ynys Manaw a Gibraltar. Fe ddylem gadw pobl a llywodraethau'r awdurdodaethau hyn yn ein gweddïau, gan na ddarperir unrhyw fanylion o gwbl am beth fydd yn digwydd iddynt ar ôl Brexit.

Mae'r Gweithgor yn parhau â'i gyfres o gyfarfodydd gydag ACau o bob plaid. Ym Mehefin, fe fydd yn cyfarfod ag Ysgrifenyddion Cyffredinol cynghorau ecwmenaidd Ewrop a chyda Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones i barhau â'r sgwrs.

AWTISTIAETH YNG NGHYMRU

Ar Fawrth 28, rhoddwyd caniatâd i Paul Davies AC gyflwyno [Bil Awtistiaeth \(Cymru\)](#). Byddai hwn yn cyflwyno strategaeth i gwrdd ag anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig; yn sefydlu cofrestr o blant ac oedolion awtistig fel y gall ardaloedd lleol gynllunio'n briodol, ac yn cydnabod awtistiaeth yn statudol, gan fod awtistiaeth yn gyflwr ynddo'i hun.

Ddeuddydd ynghynt, ar ddechrau Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, fe gyhoeddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd Cyhoeddus, Rebecca Evans, gyllid ychwanegol o £7 miliwn ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol. Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU i greu gwasanaeth cenedlaethol i ddarparu cefnogaeth gydol oes i blant ac oedolion gydag awtistiaeth a'u teuluoedd. Bydd y gwasanaeth arloesol hwn ar gael ym mhob man erbyn 2018, ac yn darparu gwasanaethau diagnostig newydd ar gyfer oedolion; cymorth i deuluoedd a gofalwyr; cymorth i bontio o ddarpariaethau plant i ddarpariaethau oedolion; a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

Mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu adnoddau awtistiaeth gwell, megis y cynllun newydd "Weli Di Fi?" sydd wedi ei ddatblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn ystod y misoedd nesaf. Crëwyd taflenni a phosteri i'w rhoi mewn siopau, banciau, siopau trin gwallt a sinemâu yn ogystal â phractisau deintyddion a meddygon teulu, er mwyn helpu pobl i gyfathrebu â phobl ag awtistiaeth. Gall pobl ag awtistiaeth ddewis a ydynt am wneud pobl eraill yn ymwybodol o'u hawtistiaeth drwy wisgo band llawes neu ddangos cerdyn (a fydd hefyd ar gael ar gyfer ffonau symudol).

LLYWODRAETH LEOL – PLEIDLEISIO A NEWID


Fe fydd cyfle i bron pawb yng Nghymru bleidleisio ar Fai 4 dros gynghorwyr lleol newydd yn y 22 awdurdod lleol. Fe fydd hynny yn debygol o esgor ar newid rheolaeth mewn rhai cynghorau.

Ond nid pawb fydd yn cael dewis. Mae ymchwil gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru (ERS) yn dangos fod 92 o gynghorwyr wedi eu hethol eisoes yn ddiwrthwynebiad – o'i gymharu â dim ond 4 yn Lloegr yn yr un gyfres o etholiadau. Mae un ward (Yscir ym Mhowys) heb unrhyw ymgeisydd o gwbl. Dros Gymru, bydd 127,631 o etholwyr yn methu â bwrw pleidlais, gan gynnwys 25,270 yng Ngwynedd.

Diffygion o'r fath yn y drefn bresennol sydd wedi arwain at sawl ymgais gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio trefn llywodraeth leol. Yn y Cynulliad diwethaf fe fethwyd â denu mwyafrif i gefnogi newidiadau, felly mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford, wedi cyhoeddi Papur Gwyn newydd o'r enw *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*.

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu cadw 22 awdurdod, oni bai fod cynghorau yn dewis uno'n wirfoddol. Ond fe ddylai llawer o brif wasanaethau'r cynghorau – megis llawer o wasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol, datblygu economaidd, rheoli cynllunio ac adeiladu – gael eu cyflwyno mewn patrwm rhanbarthol.

Lle bo patrymau rhanbarthol yn bodoli eisoes (e.e. gydag addysg a'r cyd-fyrddau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) yna byddai'r rheiny yn parhau. Ond mae'r Llywodraeth am weld uno rhagor o wasanaethau, a gwasanaethau gweinyddol awdurdodau, ar batrwm y dinas-ranbarthau a'r rhanbarthau datblygu economaidd – gweler y map. Awgrymir y gallai gwasanaethau tai a gwastraff hefyd gael eu cynnal yn rhanbarthol.



Mae gweithgor o fewn Cytûn wedi llunio ymateb. Croesewir rhai agweddau, megis:


- Arbedion o ran costau gweinyddol a gwella safon rhai gwasanaethau arbenigol, megis safonau masnach, trwy eu cynnal yn rhanbarthol.
- Y posibilrwydd o wella gwasanaethau Cymraeg drwy eu cynnal yn rhanbarthol.
- Mynnu bod ymgeiswyr annibynnol yn gorfod datgan a ydynt yn aelodau o blaid wleidyddol, a gosod safonau gwasanaeth disgwylidig i gynghorwyr gadw atynt.
- Cryfhau cynghorau cymuned, y lefel lywodraethu agosaf at y bobl.

Ond rydym yn gofidio am rai awgrymiadau eraill, megis:

- Y perygl o golli atebolrwydd democrataidd wrth i wasanaethau gael eu cynnal gan gyd-fyrddau sydd sawl cam i ffwrdd o'r etholwyr, a heb lais uniongyrchol o bob cwr o'r rhanbarth, gan waethygu'r "diffyg democrataidd" presennol.
- Caniatáu i awdurdodau lleol ddewis systemau etholiadol gwahanol, hyd yn oed o fewn yr un rhanbarth, allai greu dryswch ac ymdeimlad o annhegwch.

Gellir cael copi o'r ymateb llawn o swyddfa Cytûn (gweler y dudalen gefn).

CYMRU – CYMDEITHAS DDI-DDUW?



Trefnodd [Gorwel](#) – y Sefydliad Cymreig ar gyfer Syniadau Newydd – drafodaeth boblogaidd am y pwnc hwn yn Siambr Hywel (hen siambr y Cynulliad) yn y Senedd ar Fawrth 28.

Rhodddwyd cyflwyniadau gan Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, a Kathy Riddick, Swyddog Datblygu [Dyneiddwyr Cymru](#), a bu trafodaeth fywiog yn dilyn.

Soniodd Gethin a Kathy am anhawster dehongli'r ystadegau am ymlyniad crefyddol – syniad nad yw'n gydnaws â thicio blwch. Roeddynt yn anghytuno a yw crefydd mewn sefyllfa freintiedig yng Nghymru. Roedd Kathy

yn teimlo ei fod, tra cyfeiriodd Gethin at ddiffyg cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer dathlu trichanmlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, tra bod awduron di-grefydd megis while Dylan Thomas a Roald Dahl yn cael eu cofio ar bwrs y wlad.

Prif bwnc trafod y gynulleidfa oedd lle crefydd mewn addysg, yn enwedig addysg grefyddol, addoli ar y cyd ac ysgolion o gymeriad crefyddol (yr hyn a elwir yn 'ysgolion ffydd'). Mae Gethin a Kathy ill dau yn rhan o Grŵp Rhanddeiliaid Strategol y Llywodraeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, lle mae Gethin yn cynrychioli crefydd (ar y cyd â Nor'dzin Pamo o Gyngor Bwdhaidd Cymru) a mae Kathy yn cynrychioli dyneddiaeth.

Parhaodd y sgwrs yn Gymraeg y Sul canlynol ar [Bwrw Golwg](#) ar Radio Cymru, gyda safbwynt y dyneiddwyr yn cael ei fynegi y tro hwnnw gan lolo ap Gwynn.

POBL MEWN GOFAL PRESWYL YN CAEL CADW MWY O'U HARIAN

O Ebrill 10, fe gododd y terfyn cyfalaf a ddefnyddir wrth godi tâl am ofal cymdeithasol preswyl o £24,000 i £30,000, fel rhan o gynnydd graddol i £50,000. Hefyd, bydd y Pensiwn Anabled Rhyfel yn cael ei ddiystyru wrth i awdurdodau lleol gynnal asesiadau ariannol ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol. Dywedodd y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Rebecca Evans: "Mae pobl hŷn sydd wedi chwarae eu rhan ac wedi cyfrannu'n ariannol ar hyd eu hoes yn haeddu mwy o degwch. Dyna pam y byddwn ni, dros gyfnod y Cynulliad hwn, yn dyblu swm yr arian y caiff pobl hŷn ei gadw pan fyddan nhw mewn gofal."

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ariannu gofal rhywun os yw ei gyfalaf yn llai na £30,000. Bydd unrhyw dâl a godir yn seiliedig yn unig ar yr incwm sydd ar gael i'r unigolyn. Dylai unrhyw rai sy'n meddwl y gallen nhw, neu aelod o'u teulu, elwa ar y trefniadau newydd, gysylltu â'u hawdurdod lleol.



CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.cymru

 [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2017. Cyhoeddir y Bwletin nesaf tua diwedd Mai 2017.